

## Gwybodaeth thema i rieni Bl.4 OLIQ-Tymor yr Haf

### I'r dyddiadur.....:-

Noson Rieni - Gorffennaf 6<sup>ed</sup> a 7<sup>ed</sup> 3.30 – 5pm  
Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - Mai 5<sup>ed</sup>-12<sup>ed</sup>  
Mabolgampau Bl. 3 a 4 – Mehefin 16<sup>eg</sup>  
Trip diwedd y flwyddyn – manylion i ddilyn

### Iaith

Cymraeg: 'Trip a Hanner', Mair Wynn Hughes. Gorffen y nofel hon cyn symud ymlaen i ganolbwyntio ar ysgrifennu storiol gan efelychu technegau'r awdures. Cerdd ar Nant y Pandy.  
Saesneg: 'James and the Giant Peach' - Roald Dahl. Drwy'r nofel, cawn gyfle i ganolbwyntio ar dechnegau ysgrifennu tebyg i'r awdur.

### Darllen

Bydd cyfleoedd darllen unigol, parau a grwpiau. Bydd cyfle i ddarllen gwybodaeth oddi ar y We a'i drosi i iaith arall fel taflen wybodaeth ar y testun Nant y Pandy.

### Mathemateg

Byddwn yn paratoui'r disgyblion ar gyfer y Profion Cenedlaethol drwy adolygu dulliau cyfrifo'r 4 rheol, gwaith ar amser ac arian. Gwneir gwaith ar ffracsiynau, siapiau ac onglau a thrin data.

**\*\*Mae'n bwysig ymarfer y tablau.\*\***

### Gwyddoniaeth

Byddwn yn cynnal arbrofion yn edrych ar sut mae modd newid cyflwr gwahanol ddefnyddiau. Dysgu am y 'Cylch dŵr'. Arbrawf ar ynysu gwres gyda dŵr.



### Hanes

Gwaith ar hanes Tryweryn.

### Daearyddiaeth

Astudiaeth a gwaith maes ar Afon Cefni.

### Addysg Gorfforol

Athletau, taro a maesu. – p'nawn dydd Mawrth. Dwy wers nofio i'w cwblhau y tymor hwn.

### Celf

Astudio gwaith yr arlunydd Hokusai – 'Y Don' - Print Siapaneidd

### Addysg Grefyddol

Parhau â gwaith Hindwaeth. Beth sy'n digwydd mewn Bedydd Cristion?

### Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref ar **ddydd Gwener**, a dylid ymdrechu i'w ddychwelyd erbyn y **dydd Mercher canlynol**.

### Technoleg Gwybodaeth

Defnyddio amryw o raglenni i ddiwallu gofynion y Cwricwlwm e.e. Word, Publisher, Logo. Defnyddio i-Pads ar gyfer tasgau darllen am wybodaeth.

### Cerddoriaeth

Cyfansoddi taith Afon Cefni yn dilyn gwrando ar 'Vltava' – Smetana.